**Rhif: WG42495**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Sefydliadau Bridio Cŵn - Canllawiau i Awdurdodau Lleol

Dyddiad cyhoeddi: 23 Gorffennaf 2021
Camau i'w cymryd: 17 Medi 2021

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Cafodd adolygiad o'r Rheoliadau ei gynnal gan y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid ("y Fframwaith") a chyflwynodd adroddiad ar ei adolygiad a'i argymhellion i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020.<br><br>Mae gwaith eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â nifer o argymhellion yr Adolygiad, gan gynnwys taclo'r rhwystrau i orfodi Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014. Mae rhan o'r broses hon yn cynnwys diweddaru'r Canllawiau y mae Awdurdodau Lleol yn eu defnyddio wrth asesu ceisiadau ac archwilio safleoedd.<br><br>Byddem yn croesawu'ch barn a'ch sylwadau am y Canllawiau amgaeedig. |
| **Sut i ymateb** | Ymatebwch trwy ddefnyddio'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon. Gallwch gyflwyno'ch ymatebion yn electronig neu drwy'r post. Mae ffurflen ar-lein ar gael hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru yn: https://llyw.cymru/ymgyngoriadau |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:<br><br>Cangen Lles Anifeiliaid a'r Fframwaith<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: companionanimalwelfare@gov.wales |
| **Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd** | English Consultation |

## Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Diogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ
e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cyflwyniad

Cafodd Deddf Bridio Cŵn 1973 ei disodli yng Nghymru gan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 ("y Rheoliadau") gan ddarparu bod Awdurdodau Lleol yn trwyddedu pobl sy'n ymwneud â bridio cŵn.  Mae'r Rheoliadau wedi cyflwyno meini prawf llymach ar gyfer sefydliadau bridio a phennu cymhareb bod angen o leiaf un aelod o staff ar gyfer pob 20 ci llawn dwf.

Dyma'r rheoliadau cyntaf o'u bath yn y DU ac er bod barn mudiadau ac elusennau lles am y cynnwys yn amrywio, cafwyd croeso eang i'r rheoliadau.

Mynegwyd pryderon yn y cyfamser am y safonau a welwyd mewn rhai safleoedd trwyddedig, sef thema a gododd dro ar ôl tro yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Werthiannau gan Drydydd Partïon.

## Adolygu'r Rheoliadau Bridio

Ar ôl ystyried cynnal adolygiad o'r Rheoliadau, cytunwyd ei gynnal ddechrau 2019 (yn amodol bod adnodd cyfreithiol oedd ar gael). Fodd bynnag, oherwydd pryderon a godwyd mewn rhaglen ddogfen gan y BBC ddiwedd mis Medi ynghylch safonau rhai safleoedd trwyddedig yng Nghymru, comisiynwyd adolygiad brys yng Nghymru.  Cynhaliwyd yr adolygiad gan y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid ("y Fframwaith") a chyflwynwyd adroddiad ac argymhellion yr adolygiad i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020.

Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth i'r adolygiad ar 4 Mawrth 2020.

## Canfyddiadau ac argymhellion

I fynd i'r afael â nifer o'r argymhellion yn yr adolygiad, mae gwaith yn mynd rhagddo i daclo'r rhwystrau i orfodi Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014. Mae prosiect tair blynedd sy'n cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru wedi'i sefydlu fydd yn gwella hyfforddiant a'r arweiniad i arolygwyr ac yn gwella'r defnydd o adnoddau o fewn Awdurdodau Lleol ac ar draws Cymru. Awdurdodau Lleol sy'n cynnal y prosiect yng Nghymru.

Mae rhan o'r broses yn golygu diweddaru'r Canllawiau y imae Awdurdodau Lleol yn eu defnyddio i asesu ceisiadau ac archwilio safleoedd.  Mae'r grŵp adolygu wedi cynnig syniadau cychwynnol sydd wedi'u hychwanegu at y ddogfen mewn testun coch. Mae argymhellion llawn y grŵp ynghylch y canllawiau yn Atodiad A.

## Ymgynghori

Fel y dywedir uchod, mae'r argymhellion o'r Adolygiad gan y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles i'w gweld yn Atodiad A.

Hoffem wybod a ydych yn teimlo bod y drafft diweddaraf yn rhoi digon o wybodaeth i Swyddogion Awdurdodau Lleol allu asesu ceisiadau a chynnal archwiliadau. Fe'ch gwahoddir i leisio eich barn a chyflwyno sylwadau ar y ddogfen, yn arbennig drwy ymateb i'r cwestiynau isod a rhoi unrhyw dystiolaeth ategol sydd ei hangen.

**Cwestiynau**

1) **Adran 1 –** Ydy'r Canllawiau'n darparu digon o wybodaeth i fynd i'r afael â'r gwahanol sefyllfaoedd a safleoedd ble y caiff cŵn eu bridio (yn amrywio o, er enghraifft, cartrefi arraddf fach i safleoedd bridio masnachol)?

2) **Adran 3 –** Ydy'r cyngor ychwanegol ynghylch pennu cymarebau staff i gŵn llawn dŵf yn nodi'n glir y dylai'r swyddogion arolygu ystyried hyn fesul achos?

**3)** **Adran 4 –** Ydych chi'n cytuno y dylid gwahaniaethu'n glir rhwng swyddogaeth y milfeddyg preifat, a hefyd swyddogaeth y milfeddyg archwilio a diffinio'r swyddogaethau hyn, ac y dylai milfeddygon archwilio fod yn annibynnol ac ni ddylent archwilio safleoedd eu cleientiaid?

Mae'r diwygiadau a awgrymir i faint cytiau yn gymhleth ac mae'n ofynnol eu hystyried ymhellach. Mae croeso i chi gyflwyno sylwadau ynghylch maint presennol cytiau. Rhagwelir, fodd bynnag, y bydd gweithgor arbenigol yn cael ei sefydlu er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Bydd fersiwn ddrafft o atodiad ar wahân yn cael ei lunio unwaith y bydd prif gynnwys y Canllawiau yn derfynol.

# Sefydliadau Bridio Cŵn - Canllawiau i Awdurdodau Lleol

Canllawiau i Awdurdodau Lleol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â Rheoliad 13 o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014

# Cynnwys


**TROSOLWG**

**1. LLETY AC AMGYLCHEDD**
1.1 Gwneuthuriad
1.2 Maint y cytiau
1.3 Deunydd gorwedd
1.4 Tymheredd a gwresogi
1.5 Golau
1.6 Awyru
1.7 Glendid
1.8 Rheoli plâu
1.9 Cael gwared ar wastraff
1.10 Cyfleusterau bwrw cenawon
1.11 Cyfleusterau i gŵn bach

**2. DEIET A MAETH**
2.1 Bwyd a diod
2.2 Cyfleusterau paratoi bwyd

**3. YMDDYGIAD NATURIOL**
3.1 Gwella a chyfoethogi
3.2 Cymdeithasoli cŵn bach
3.3 Y gymhareb rhwng staff a chŵn llawn dwf
3.4 Cynllun y safle

**4. IECHYD A LLES**
4.1 Cofrestru â milfeddyg
4.2 Cynllun Iechyd a Lles
4.3 Meddyginiaethau
4.4 Statws iechyd y cŵn
4.5 Pecyn cymorth cyntaf
4.6 Diogelwch tân
4.7 Strategaeth ar gyfer cŵn a geist wedi i'w cyfnod bridio ddod i ben
4.8 Cludo cŵn

**ATODLEN 1: COFNODION BRIDIO CŴN ATODLEN**
**ATODLEN 2: LLYFR LOG CŴN BACH**

**TROSOLWG**

Diben y ddogfen hon yw rhoi arweiniad i Awdurdodau Lleol pan fyddant yn ystyried neu'n ymgymryd ag unrhyw swyddogaeth yn unol â Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 (y "Rheoliadau").

Nod y canllawiau hyn yw sicrhau bod anghenion unrhyw gi, fel y'u nodir yn Adran 9 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, yn cael eu diwallu h.y. gan gynnwys:

(a) ei angen i fyw mewn amgylchedd addas

(b) ei angen i gael deiet addas,

(c) ei angen i fedru arddangos patrymau ymddygiad naturiol,

(d) ei angen naill ai i gael ei gadw gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân iddynt,

(e) ei angen i gael ei ddiogelu rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd.

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r canllawiau hyn fod yn gwbl gynhwysfawr, a chaiff Awdurdodau Lleol eu hannog i ystyried unrhyw fater arall sydd, yn eu barn nhw, yn berthnasol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau. Dylid anfon unrhyw ymholiadau at swyddogion yr adrannau cyfreithiol perthnasol yn yr Awdurdodau Lleol.

Yn gyffredinol, dylid sicrhau bod digon o staff i fedru rhoi'r math o ofal a nodir yn yr Amodau Trwyddedu a'r ddogfen ganllaw hon. Mae hyn yn cynnwys y rhyngweithio a'r gweithdrefnau a amlinellir i sicrhau bod anghenion lles y ci yn cael eu diwallu, yn ogystal â'r gofal a'r rheolaeth arferol.

Oni nodir yn wahanol, os cyfeirir at 'gi' yn y canllawiau hyn, mae'n hynny'n cynnwys pob ci ar y safle bridio. Mae 'ci llawn dwf' yn cyfeirio at gŵn sydd dros chwe mis oed ac mae 'ci bach' yn cyfeirio at gŵn sy'n llai na chwe mis oed.

## 1. LLETY AC AMGYLCHEDD

O dan Reoliad 9 o'r Rheoliadau, cyn rhoi neu adnewyddu trwydded, rhaid i'r Awdurdod Lleol fod yn sicr bod yr holl gŵn yn cael eu cadw, bob amser, mewn cytiau sy'n addas o ran gwneuthuriad, maint, lle i ymarfer, tymheredd, golau, awyriad a glendid a bod lle addas iddynt gysgu a bwrw cenawon. Rhaid hefyd sicrhau bod y cŵn yn cael bwyd a diod addas a chyfleusterau sy'n caniatáu iddynt arddangos patrymau ymddygiad naturiol.
Rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried y materion a ganlyn wrth benderfynu a yw wedi'i argyhoeddi bod y sefydliad yn addas.

### 1.1 Gwneuthuriad

Dylai'r Awdurdod Lleol fod yn sicr bod wyneb mewnol yr holl ddeunyddiau a ddefnyddir i adeiladu waliau, lloriau, canolfuriau a fframiau drysau yn gryf ac yn anhydraidd ac y gellir eu glanhau a'u diheintio'n hawdd. Rhaid gofalu nad oes unrhyw beth yn ymwthio allan neu unrhyw ymylon garw a allai anafu'r cŵn.

Dylid sicrhau nad yw dŵr yn casglu yn unrhyw ran o'r llety (gan gynnwys llety'r cŵn, y lle ymarfer, y llwybrau a'r gegin) ar ôl eu golchi, a'u bod yn sychu'n hawdd.

Dylai'r waliau rhwng y cytiau a'r lleoedd ymarfer unigol fod yn solet ac yn ddigon uchel i atal y cŵn rhag cyffwrdd â thrwynau ei gilydd.

Dylai drysau'r cytiau fod yn ddigon cryf fel na all y cŵn eu difrodi drwy gnoi a chrafu a dylid sicrhau bod modd eu cau'n effeithiol. Yn ddelfrydol, dylai'r drysau agor at i mewn am resymau iechyd a diogelwch, h.y. ni fyddant yn agor wrth i gŵn mawr wthio yn eu herbyn.

Os caiff bariau a fframiau metel eu defnyddio, dylent fod yn ddigon trwchus, ac yn ddigon agos at ei gilydd i atal cŵn rhag dianc neu rhag mynd yn sownd. Os caiff ymylon metel eu defnyddio, rhaid gofalu nad ydynt yn gallu anafu'r cŵn.

### 1.2 Maint y cytiau

Mae'r mesuriadau a ganlyn e.e. uchder, tymheredd etc yn cael eu cynnwys i gynghori swyddogion gorfodi. Dylid cofio bod modd cadw rhai cŵn, fel cŵn hela mewn cytiau gwahanol i'r hyn a nodir yn y canllawiau, a hynny oherwydd y math o gŵn ydynt a'u natur. Dylid ystyried pob sefyllfa unigol ar wahân.

Dylid rhannu'r cytiau'n ddau, sef lle i'r ci gysgu ac ymarfer. Dylid gofalu bod digon o le i'r ci gysgu, a bod lle iddo sefyll, troi o gwmpas, ymestyn a gorwedd ar ei hyd mewn ystum naturiol, a bod digon o le i'r drws agor led y pen.

Dylid rhoi sylw penodol i eist sy'n bwrw cenawon, a geist yn eu tymor. Dylai cytiau fod yn ddigon mawr i gadw'r uchafswm o gŵn bach o ystyried maint y brid a maint y dorllwyth.

Dyma'r gofynion sylfaenol a gaiff eu hargymell ar gyfer cytiau cŵn bach, canolig a mawr.

> Sylwch:
> Ystyr 'Mynediad unrhyw adeg i'r lle ymarfer' yw nad oes unrhyw beth yn rhwystro ci rhag mynd i'r lle ymarfer.
>
> Ystyr 'Mynediad cyfyngedig i'r lle ymarfer' yw bod y ci yn gallu mynd i'r lle ymarfer weithiau.

**Mae'n bosibl na fydd y mesuriadau hyn yn addas ar gyfer cytiau cŵn hela. Gweler 3.4 Cynllun cwt ci.**

**<u>Cŵn bach (o ran maint)</u>**

| **Nifer y cŵn llawn dwf** | **Mynediad unrhyw adeg i'r lle ymarfer** | **Mynediad cyfyngedig i'r lle ymarfer** |
|---|---|---|
| 1 | 2.5 metr sgwâr | 4.5 metr sgwâr |
| 2 | 2.5 metr sgwâr | 4.5 metr sgwâr |
| 3 | 4.5 metr sgwâr | 6.5 metr sgwâr |
| 4 | 6.0 metr sgwâr | 8.5 metr sgwâr |

**<u>Cŵn canolig</u>**

| **Nifer y cŵn llawn dwf** | **Mynediad unrhyw adeg i'r lle ymarfer** | **Mynediad cyfyngedig i'r lle ymarfer** |
|---|---|---|
| 1 | 2.5 metr sgwâr | 4.5 metr sgwâr |
| 2 | 4.5 metr sgwâr | 6.5 metr sgwâr |
| 3 | 6.0 metr sgwâr | 8.5 metr sgwâr |

**<u>Cŵn mawr</u>**

| **Nifer y cŵn llawn dwf** | **Mynediad unrhyw adeg i'r lle ymarfer** | **Mynediad cyfyngedig i'r lle ymarfer** |
|---|---|---|
| 1 | 4.5 metr sgwâr | 6.5 metr sgwâr |
| 2 | 6.0 metr sgwâr | 8.5 metr sgwâr |

Os yw'r sefydliad trwyddedig yn gweithredu mewn cartref domestig lle defnyddir caetsys cŵn, dylai'r Awdurdod Lleol ystyried a yw'r caetsys yn addas o ystyried maint y cŵn a gaiff eu cadw ynddynt.

Os cânt eu defnyddio, dylai'r caetsys fod yn ddigon mawr i ganiatáu i bob ci fedru eistedd a sefyll yn syth, camu ymlaen, troi o gwmpas, ymestyn a gorwedd mewn ystum naturiol ac ysgwyd ei gynffon, heb gyffwrdd ochrau'r caets. Fel arfer, ni ddylid cadw ci mewn caets am dros naw awr ar y tro mewn unrhyw gyfnod o 24 awr.

### 1.3 Deunydd gorwedd

Dylid darparu gwely a deunydd gorwedd sy'n caniatáu i'r ci fod yn gyfforddus. Dylai'r gwely fod wedi'i adeiladu o ddeunydd sy'n para, dylid gofalu na fydd y ci yn gorwedd mewn drafft, a dylai fod yn ddigon mawr ar gyfer y brîd o gi sy'n cael ei gadw yn y caets. Dylai fod yn ddigon mawr i bob ci fedru gorwedd yn gyfforddus ar ei ochr.

Dylid defnyddio deunydd gorwedd sy'n hawdd ei lanhau a'i ddiheintio, dylai fod yn lân ac yn sych a dylid sicrhau na fydd yn achosi llid. Os yw'r ci'n cnoi'r gwely, dylid rhoi deunydd gorwedd arall iddo.

Fel arfer, byddai'n syniad da i bob ci gael ei wely ei hun*, ond mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Lleol o'r farn nad yw hyn yn angenrheidiol bob amser.

Os yw'r sefydliad yn bwriadu defnyddio deunydd gorwedd a wneir o wastraff (e.e. coed, tecstilau etc), bydd angen i ddeiliad y drwydded ofalu ei fod yn addas a'i fod yn cael y caniatâd priodol. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000.

* Os yw cŵn hela'n cael eu cadw mewn cytiau cŵn hela, dylid eu cadw gyda'i gilydd. Fel arfer, rhaid cadw cŵn hela mewn grwpiau o 20-40 mewn cwt a rhan ohono wedi'i inswleiddio, lle byddant yn cysgu.

Mae rhagor o wybodaeth am y safonau a argymhellir ar gyfer cytiau cŵn hela i'w chael yn "The Code of Practice for the Welfare of Hounds in Hunt Kennels" gan Feistr y Cŵn Hela.

### 1.4 Tymheredd a gwresogi

Dylai'r Awdurdodau Lleol ystyried a oes angen inswleiddio'r cytiau rhag i'r tymheredd ostwng yn ormodol ac a oes angen system gwresogi ac oeri.

Yn y rhan honno o'r cwt lle mae'r ci'n cysgu, dylai'r tymheredd fod yn addas i'w frîd/ y math o gi ydyw. Fel arfer, tymheredd o rhwng 10ºC a 26ºC fydd hyn, (bydd yn wahanol i rai bridiau e.e. hysgis), ac eithrio mewn cytiau cŵn bach o dan bedair wythnos oed; i'r rhain dylai'r tymheredd fod rhwng 26°C (79°F) a 28°C (82°F).

Dylai'r awdurdodau lleol ystyried a yw'r ffynonellau gwres a ddefnyddir yn ddiogel ac a ydynt yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddiol.

**1.5 Golau**
Dylai'r Awdurdodau Lleol ystyried a oes digon o olau yn y rhannau hynny o'r cwt lle mae'r cŵn yn ymarfer ac yn cysgu, fel bod modd gweld pob rhan o'r cwt yn glir. Os yw hynny'n ymarferol, dylai hwn fod yn olau naturiol, Fel arall, dylid gosod golau artiffisial y gellir ei droi ymlaen a'i ddiffodd n y nos i sefydlu'r patrymau cysgu priodol.

**1.6 Awyru**
Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried a yw'r system awyru'n ddigonol y tu mewn i'r cwt ac nad oes gormod o ddrafft yn y rhan honno o'r cwt lle mae'r ci'n cysgu.

**1.7 Glendid**
Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried a yw'r drefn glanhau'n ddigon trylwyr i reoli clefydau ac i sicrhau lles y cŵn.

Wrth lanhau, dylid defnyddio diheintydd addas sy'n atal micro-organebau sy'n gyfrifol am ledu clefydau cŵn a dylid ei gynnwys yn y cynllun iechyd. Rhaid teneuo'r hylif yn unol â'r cyfarwyddiadau a gymeradwyir.

**1.8 Rheoli plâu**
Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried a yw'r person sy'n gwneud cais am drwydded wedi cymryd y camau priodol i leihau'r niwed posibl y gall llygod mawr, pryfed a phlâu eraill ei achosi. Er enghraifft, dylid cadw bwyd mewn cynwysyddion sy'n ei ddiogelu rhag llygod.

Os oes unrhyw driniaethau rheoli plâu ar y safle sy'n cynnwys deunyddiau gwenwynig neu sy'n achosi llid, dylid eu rhoi mewn lle diogel lle na all cŵn ei gyrraedd.

**1.9 Cael gwared ar wastraff**
Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried a oes digon o gyfleusterau ar y safle i gadw a chael gwared ar wastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn ymwneud â gwastraff yn cynnwys rheoli systemau trin a gwaredu gwastraff ar y safle a throsglwyddo gwastraff oddi ar y safle bridio. Cyflwynwyd y rheolau hyn i ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd (gan gynnwys anifeiliaid a phlanhigion etc).

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoi dogfen ganllaw i helpu Awdurdodau Lleol i ddeall eu cyfrifoldebau. Mae copi o'r ddogfen hon ar gael drwy ffonio Gyfoeth Naturiol Cymru ar 03000 065 3000.

**1.10 Cyfleusterau bwrw cenawon**
Dylai'r awdurdodau lleol sicrhau bod lle /cwt dynodedig addas ar gael i'r geist fwrw cenawon a bod ganddynt wely/blwch addas. Fodd bynnag, ni ddylid eu cadw'n gwbl ar wahân a dylent fedru gweld, clywed ac arogli geist cyfarwydd eraill a dod i gysylltiad â phobl bob dydd. Dylai'r system wresogi fod yn ddigonol ac yn ddiogel a dylid medru addasu'r tymheredd ar gyfer y cŵn bach a'r ast.

Dylai’r cyfleusterau fod yn ddigon mawr i gadw’r uchafswm o gŵn bach, o ystyried maint y brid a’r dorllwyth. Dylid sicrhau bod yr ast yn gallu symud oddi wrth ei chŵn bach i orffwys. Dylai’r gwely gynnwys deunydd gorwedd sy’n
creu lle cyfforddus iddi orwedd ac sy’n amsugno’r llanastr a gaiff ei greu wrth iddi fwrw cenawon.

Dylid defnyddio deunydd meddal ar gyfer y gwely a’i orchuddio â deunydd amsugnol. Nid yw’n dderbyniol defnyddio dim ond papur newydd ac eithrio am gyfnod byr pan fydd yr ast yn bwrw cenawon. Ni ddylid defnyddio blawd llif a gwellt. Mae’n hollbwysig bod y cwt lle mae’r ast yn bwrw cenawon yn lân a dylid defnyddio deunyddiau sy’n hawdd eu glanhau’n rheolaidd.

### 1.11 Cyfleusterau i gŵn bach

Dylai’r Awdurdod Lleol ystyried a ddylid neilltuo man penodol i’r cŵn bach o bob torllwyth gymdeithasu e.e. gan efelychu amgylchedd mewn cartref neu weithle.

## 2. DEIET A MAETH

O dan Reoliad 9 o’r Rheoliadau, mae’n ofynnol i Awdurdod Lleol sicrhau bod cŵn yn cael bwyd a diod addas. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod dŵr glân ar gael iddynt bob amser, a’i fod yn cael ei newid o leiaf unwaith y dydd, a bod digon o fwyd addas ar gael iddynt hefyd.

### 2.1 Bwyd a diod

Dylai’r Awdurdod Lleol ystyried a yw’r cyfarpar bwyd a diod yn addas ac yn hawdd ei olchi a’i ddiheintio. Yn benodol, dylai ofalu bod system i gyflenwi digon o ddŵr glân ar gael ac a ddylid defnyddio powlenni dŵr sefydlog.

Dylai’r holl gŵn gael digon o fwyd, yn ôl eu hoed, eu brîd, eu cylch bridio a faint o ymarfer corff a gânt. Dylid dechrau diddyfnu cŵn bach cyn gynted ag y gallant dreulio’u bwyd ar eu pennau’u hunain. Rhaid i’r bwyd a gynigir iddynt fod yn addas, gan ddibynnu ar eu datblygiad.

Dylid dechrau diddyfnu cŵn bach pan fyddant tua 3-4 wythnos oed. Dylai fod yn broses raddol a dylid ceisio cwblhau’r broses erbyn iddynt fod yn chwe wythnos oed. Dylid gofalu bod yr ast yn cael cyfle i gynhyrchu llai o laeth yn raddol. Gall y deiet cychwynnol fod yn hylifol gan symud ymlaen i fwyd solet dros weddill y cyfnod. Dylid cynnig bwyd i gŵn bach hyd at bum gwaith y dydd i ddechrau a dylid gofalu bod pob un yn cael cyfran briodol o’r bwyd. Mae’n bwysig cadw llygad ar eu pwysau. Dylid monitro faint o fwyd y maent yn ei fwyta i sicrhau bod pob ci’n cael digon.

Fel arfer, dylid bwydo cŵn o bowlenni unigol. Dylid cynnig o leiaf dau bryd y dydd i gŵn llawn dwf, gan ddibynnu ar eu brîd a’r math o gŵn ydynt, gan gadw at gyngor y milfeddyg ar argymhellion gwneuthurwr y bwyd.

Nid yw'n syniad da gadael i'r cŵn fwydo fel y mynnant, neu eu bwydo'n barhaus, a dylid gwneud hynny dim ond os yw gwneuthurwr y bwyd neu'r milfeddyg yn awgrymu hynny.

Dylid cadw at system glanhau briodol i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gadw'n lân ac i atal clefydau heintus. Dylid paratoi canllawiau safonol at y diben hwn.

### 2.2 Cyfleusterau paratoi bwyd

Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried a oes cyfleusterau addas a glân i gadw a pharatoi bwyd ar gyfer y cŵn. Dylai sinc a dŵr tap poeth ac oer fod ar gael i olchi llestri a chyfarpar. Os caiff cig ffres, a chig wedi'i goginio, ei gadw, dylid defnyddio oergelloedd. Dylid osgoi halogi bwyd.

Os yw cŵn hela'n cael cig o stoc drig, dylid cadw at Reoliadau Sgilgynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014.

## 3. YMDDYGIAD NATURIOL

Mae Rheoliad 9 o'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod gan gŵn gyfleusterau digonol i ganiatáu iddynt arddangos patrymau ymddygiad arferol. Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried  y materion a ganlyn wrth benderfynu a yw wedi'i sicrhau o hynny.

### 3.1 Gwella a chyfoethogi

O dan Reoliad 7 o'r Rheoliadau, rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais am drwydded baratoi rhaglen ysgrifenedig ddrafft sy'n dangos sut y bydd y cŵn ar y safle'n cael cyfle i arddangos patrymau ymddygiad naturiol.

Wrth ystyried a yw'r rhaglen ddrafft yn rhoi'r cyfle hwnnw i'r cŵn, dylai'r Awdurdod Lleol ystyried a fydd yn caniatáu i'r cŵn gael:

- Digon o gysylltiad â phobl (e.e. sesiynau brwsio, hyfforddi, trin a/neu chwarae).
- Rhaglen ymarfer ysgrifenedig sy'n sicrhau bod pob ci dros chwe wythnos oed yn cael ymarfer am o leiaf 30 munud y dydd.
- Mynediad i amgylchedd awyr agored a ddylai fod mor gymhleth ag y mae diogelwch a glendid yn ei ganiatáu.
- Eitemau i chwarae â nhw, os yw hynny'n briodol, a dylid aillosod y rhain a'u cyfnewid yn rheolaidd (ar ôl eu golchi).

### 3.2 Cymdeithasoli cŵn bach

O dan Reoliad 7, rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais am drwydded gynnwys rhaglen cymdeithasoli drafft yn dangos sut y bydd cŵn bach yn ymgyfarwyddo â phobl, amgylcheddau domestig a'r syniad o chwarae, a sut y cânt eu paratoi i adael y fam.

Dylai'r rhaglen ddrafft gynnwys nifer o weithgareddau a allai gynnwys:

- Gafael yn ofalus ym mhob ci bach.

- Ar ôl 14 diwrnod, cyflwyno synau tawel yn raddol.

- Ar ôl 21 diwrnod, sicrhau bod y cŵn bach yn dod i gysylltiad â gwahanol bobl.

- Symud y cŵn bach oddi wrth y fam i chwarae â theganau addas.

- Os yw bioddiogelwch ac iechyd y safle'n caniatáu, dylai cŵn bach o wahanol dorthllwythi gymysgu mewn amgylcheddau addas. Dylid cymryd gofal i beidio â chynhyrfu'r fam wrth afael yn y cŵn bach a'u symud.

Os yw sesiynau hyfforddi'n cael eu cynnwys yn y rhaglen, dylid eu seilio ar system wobrwyo; ni ddylid defnyddio dulliau hyfforddi llym a all frifo'r cŵn neu godi ofn arnynt.

**3.3 Y gymhareb rhwng staff a chŵn llawn dwf**
O dan y Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdodau Lleol osod amod ar bob trwydded sy'n nodi uchafswm y cŵn llawn dwf a'r cŵn bach y gellir eu cadw o dan amodau'r drwydded.

Wrth benderfynu ar y gymhareb briodol rhwng staff a chŵn llawn dwf, dylai'r Awdurdod Lleol ystyried ffactorau fel maint y cŵn a gaiff eu cadw yn y sefydliad bridio a'r math o gŵn ydynt.

Mae hyn yn ymwneud yn benodol â'r lle sydd ar gael ar gyfer cadw cŵn, iechyd y cŵn a'u hanghenion o ran eu hamgylchedd a chyfleoedd i gymdeithasoli. Mae'r Rheoliadau'n nodi bod yn rhaid i'r drwydded nodi uchafswm y cŵn llawn dwf a'r cŵn bach y gellir eu cadw unrhyw adeg. **Ni chaiff byth fod uwchlaw 20 o gŵn llawn dwf am bob aelod o staff amser llawn neu 10 o gŵn llawn dwf am bob aelod o staff rhan amser,** yn unol â'r diffiniad a geir yn y Rheoliadau.

Ni ddylid defnyddio'r uchafswm o 20 o gŵn llawn dwf am bob aelod o staff amser llawn neu 10 ci llawn dwf am bob aelod rhan amser o staff fel llinyn mesur. UCHAFSWM nifer y cŵn llawn dwf yw hyn. Dylai swyddogion archwilio fod yn barod eu hunain i ddewis y gymhareb briodol ar gyfer safle penodol i wneud yn siŵr bod modd gwneud yn realistig yr holl dasgau sydd eu hangen, fel ymarfer digonol a rhaglenni cymdeithasoli, mewn diwrnod gwaith.

Os nad yw amodau'r drwydded yn cael eu bodloni yn unol â'r gymhareb, dylid ystyried newid y gymhareb.

Dylid sicrhau bod person addas a chymwys, sy'n 16 oed o leiaf, yn goruchwylio'r safle. Dylai fod ar gael i ymdrin ag unrhyw argyfwng a dylai fod yn gymwys i wneud hynny.

Enghreifftiau o dystiolaeth o'r lefelau staffio/presenoldeb (nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- Prawf eich bod yn byw ar y safle
- Nodiadau talu/amserlen waith
- Cadarnhad gan elusen/corf cydnabyddedig bod gwirfoddolwyr
- Tyst o bresenoldeb yn ystod archwiliad

Os bydd nifer y cŵn ar y safle'n fwy na'r gymhareb, dylai'r bridiwr roi tystiolaeth ei fod wedi cymryd camau i leihau nifer y cŵn neu gynyddu lefel y staff dros gyfnod penodol o amser.

**3.4 Cynllun y safle**

Rhaid cadw cŵn bridio mewn amgylchedd sy'n caniatáu iddynt gymdeithasoli. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried a yw'n briodol cadw ci yng nghwmni eraill, oni bai ei bod yn well eu cadw ar wahân am resymau diogelwch a lles.

Rhaid cadw cŵn hela mewn cytiau pwrpasol fel arfer. Dylid sicrhau bod y llawr yn un rhan o'r cwt wedi'i godi er mwyn i'r cŵn llawn dwf fedru gweld yr hyn sy'n digwydd o'u cwmpas.

Dylid cynllunio'r cwt i sicrhau diogelwch, lles a llesiant y cŵn. Dylai hyn gael ei gynnwys yn y cynllun gwella a chyfoethogi.

## 4. IECHYD A LLES

Un o amodau pob trwydded a gaiff ei roi o dan y Rheoliadau yw bod deiliad y drwydded yn cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu cŵn rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd. Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried y canlynol wrth benderfynu a yw'r sefydliad yn bodloni'r amod hwn.

**4.1 Cofrestru â milfeddyg**

Dylai'r Awdurdodau Lleol sicrhau bod pawb sydd â thrwydded yn cofrestru â milfeddyg a bod y manylion llawn ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu.

Dylid gwahanu a diffinio rôl y milfeddyg preifat a rôl y milfeddyg archwilio. Dylai milfeddygon archwilio fod yn annibynnol ac ni ddylent archwilio safleoedd eu cleientiaid eu hunain.

**4.2 Cynllun Iechyd a Lles**

Dylai'r Awdurdodau Lleol sicrhau bod pawb sydd â thrwydded yn cytuno ar gynllun iechyd a lles gyda'u milfeddyg. **Dylai'r cynllun iechyd a lles fod yn ddogfen fyw, sy'n cael ei defnyddio ar gyfer rheoli a chynnal y sefydliad bob dydd.** Dylai gynnwys cynllun brechu a dulliau o reoli parasitiaid.

Cynghorir pob sefydliad i frechu'r cŵn rhag clefyd y cŵn, hepatitis cŵn heintus, leptosbirosis a pharfofirws oni bai bod eu milfeddyg yn rhoi cyngor gwahanol iddynt.

Dylid cadw cofnod cyfredol o frechiadau pob ci llawn dwf a chi bach.

Dylai cofnodion brechu ddangos y cytundeb â'r milfeddyg.

**4.3 Meddyginiaeth**
Rhaid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr neu bresgripsiwn y milfeddyg wrth ddefnyddio pob meddyginiaeth.

**4.4 Statws iechyd y cŵn**
Dylai'r Awdurdod Lleol ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded gynnal archwiliad corfforol o bob anifail bob dydd i sicrhau nad yw'n sâl nac yn dioddef mewn unrhyw ffordd a chofnodi'r archwiliadau hynny.

Rhaid i filfeddyg gynnal archwiliad iechyd blynyddol ar bob anifail bridio. Bydd gofyn cofnodi'r archwiliad gan gynnwys rhif y microsglodyn.

Dylai'r Awdurdod Lleol hefyd sicrhau y bydd deiliad y drwydded yn gofyn am gyngor gan filfeddyg os yw ci'n cael ei anafu neu os yw'n sâl neu os oes pryder ynglŷn â'i ymddygiad, ac y bydd yn cysylltu â'r milfeddyg eto os yw ei gyflwr yn parhau i ddirywio ar ôl ei drin.

Dylai milfeddyg gynnal archwiliad iechyd ar bob ci bach cyn ei werthu, a chofnodi'r archwiliad gan gynnwys rhif y microsglodyn.

**4.5 Pecyn cymorth cyntaf**
Dylid sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf llawn ar y safle, ac y gellir ei ddefnyddio i drin pob ci. Dylid hefyd sicrhau ei fod ar gael i bawb ei ddefnyddio.

**4.6 Diogelwch tân**
Dylid sicrhau bod cynllun gwacáu'r safle mewn argyfwng ynghyd â chanllawiau rhybudd tân ar waith. Dylid gosod y rhain mewn lle amlwg er mwyn i'r staff ymgyfarwyddo â nhw.

Dylid cynnal a chadw offer ymladd tân a synwyryddion, ac archwilio diffoddwyr tân a'u newid os oes angen.

Ni ddylid gosod offer gwresogi mewn lle neu mewn ffordd a allai achosi tân neu beryglu'r cŵn.

Rhaid cymryd camau i sicrhau nad yw deunyddiau'n cronni mewn ffordd a allai achosi tân.

**4.7 Strategaeth ar gyfer cŵn a geist bridio wedi i'w cyfnod bridio ddod i ben.**
Dylai'r Awdurdodau Lleol ystyried a oes strategaeth ar waith ar gyfer y cŵn wedi i'w cyfnod bridio ddod i ben, gan gynnwys dulliau o gael gwared arnynt a/neu ddulliau o'i hailgartrefu, gan roi blaenoriaeth i ddiogelu lles y cŵn.

Dylai'r strategaeth gynnwys trefnu bod milfeddyg y bridiwr yn niwtro anifail y mae ei oes bridio wedi dod i ben cyn ei ailgartrefu.

**4.8 Cludo cŵn**

Pan gaiff cŵn a geist bridio a chŵn bach eu cludo dylai deiliad y drwydded sicrhau ei fod yn cydymffurfio’n llawn â Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 a Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

Os caiff cŵn ifanc (llai nag wyth wythnos oed) eu cludo fel rhan o fenter fasnachol, rhaid eu cludo gyda’r fam yn unol â gofyniad yn Atodiad 1 i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005.

**Atodiad A**

**Argymhellion ynghylch y Canllawiau i Awdurdodau Lleol**

R16. Cyn [gwneud y newidiadau a awgrymir i'r amodau], argymhellir diwygio manylion y Canllawiau gyda mewnbwn milfeddygon ac arbenigwr perthnasol, i sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

R21. Dylai'r Canllawiau nodi'n glir bod yn rhaid i filfeddyg gynnal archwiliad iechyd blynyddol ar bob anifail bridio, a chofnodi'r archwiliad hwnnw.

R22. Dylai'r Canllawiau nodi hefyd bod yn rhaid i filfeddyg gynnal archwiliad iechyd ar bob ci bach cyn ei werthu, a chofnodi'r archwiliad hwnnw.

R24. Dylid ystyried pa filfeddyg ddylai gael ei ddefnyddio i gynnal yr archwiliad "Ffit i Fridio". Dylid ystyried rhoi'r rôl hon i'r milfeddyg archwilio a benodir gan yr Awdurdod Lleol i gynnal yr archwiliad blynyddol.

R25. Dylid adolygu'r canllawiau ar lety (maint a chynllun) ac ar ymarfer. Dylai'r Canllawiau ddefnyddio un set o fesuriadau ar gyfer cybiau a dylent adlewyrchu hyd a thaldra gwirioneddol y ci, er sicrhau mwy o eglurder. Dylid hefyd adolygu geiriad y gofynion o ran cadw cŵn mewn caets yn y cartref.

R31. Dylid diweddaru'r canllaw sy'n ymwneud â chymdeithasoli a chyfoethogi amgylchedd cŵn bach a'i wneud yn fanylach gan roi mwy o sylw i'r canlyniadau. Dylid diweddaru templed dogfennau cynllun cymdeithasoli a chyfoethogi Llywodraeth Cymru iddynt gofnodi sut y dangoswyd pob gweithgaredd yn yr archwiliad. Dylai'r Canllawiau nodi'r gofyn bod angen gweld yn ystod yr archwiliad bod y cynlluniau cyfoethogi a chymdeithasoli yn cael eu bodloni.

R32. Dylai'r Canllawiau argymell bod sefydliadau bridio trwyddedig yn cael eu harchwilio o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac y dylid cynnal un o'r archwiliadau hyn heb rybudd.

R33. Dylai pob awdurdod lleol fabwysiadu'r Canllawiau diwygiedig fel Model o Amodau Trwydded a'r sail i'r safonau y dylai archwiliadau eu bodloni.

R48. Dylid ystyried system ar gyfer rhoi sgôr i sefydliadau bridio sy'n seiliedig ar yr archwiliadau trwyddedu presennol. Gellid sgorio pob agwedd ar yr archwiliad a chyfuno'r sgoriau yn ôl fformwla wedi'i bwysoli i roi sgôr derfynol i'r bridiwr. Er bod gan system o'r fath ei manteision, blaenoriaeth bwysicach yw bod pob sefydliad trwyddedig yn gofalu am les ei anifeiliaid at safon dda yn unol â gofynion y Canllawiau.

R49. Dylai'r Canllawiau nodi bod yn rhaid i'r cynllun 'ymddeol' gynnwys trefnu bod milfeddyg y bridiwr yn niwtro anifeiliaid y mae eu hoes bridio wedi dod i ben cyn eu hailgartrefu

R51. Dylai'r Cynllun Iechyd a lunnir ar y cyd â'r milfeddyg preifat ac sy'n cael ei adolygu'n flynyddol gynnwys cynllun "bridio ar gyfer iechyd gwell", gyda'r nod o leihau problemau etifeddol a welir yn y stoc bridio, yn ogystal ag unrhyw brofion iechyd a fyddai yn ôl y milfeddyg yn briodol. Dylid disgrifio'r gofyn hwn yn Amod 3 y Drwydded ac yn y Canllawiau.

R52. Dylai'r Cynllun Iechyd, y bydd y milfeddyg a'r bridiwr wedi cytuno arno ac a gaiff ei adolygu bob blwyddyn, gynnwys gwybodaeth ar gyflenwi a rhoi brechlynnau yn ogystal â'r math o frechlyn a'r amserlen frechu.